General Pharmaceutical Council

Diwygio'r gofynion addysg a hyfforddiant i fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol

Medi 2021

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n fanwl-gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ar y deunydd hwn a rhaid cyfeirio at deitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd trydydd parti, mae'n rhaid ichi gael caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gael copi o'r ddogfen mewn fformat arall (er enghraifft, mewn teip mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol Medi 2021

Cynnwys

Mwy am y CFfC 4

Rhagair 5

Y broses ymgynghori 6

Cefndir 8

Rhagnodi annibynnol – y gofynion presennol a niferoedd 10

Rhagnodi annibynnol – yr angen am newid 11

Y cynnig – gofyniad amser dwy flynedd 14

Y cynnig – maes profiad clinigol neu therapiwtig 16

Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u coladu 18

Mwy am y CFfC

Pwy ydym ni

Rydym yn rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllfeydd a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Gweithiwn i sicrhau a gwella safonau gofal i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllfeydd.

Beth ydym ni'n wneud

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddynt y byddant yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan yn defnyddio gwasanaethau fferyllfeydd.

Gosodwn safonau ar gyfer gweithwyr proffesiynol fferyllfeydd a fferyllfeydd ar gyfer cael bod ac aros ar ein cofrestr.

Gofynnwn i weithwyr proffesiynol fferyllfeydd a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyflawni ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydym yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd mewn fferylliaeth os oes pryderon am weithiwr proffesiynol fferyllfa neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Trwy ein gwaith rydym yn helpu hyrwyddo proffesiynoldeb, cefnogi gwelliannau parhaus a sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

Rhagair

Fel y rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig, mae'r CFfC yn gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae hyn yn cefnogi dau o'n nodau strategol:

- darparu fframwaith safonau hyblyg sy'n diwallu anghenion cyhoeddus a phroffesiynol sy'n newid yn gyflym, a
- gyrru gwelliannau mewn gofal fferyllol trwy foderneiddio sut rydym yn rheoleiddio addysg a hyfforddiant

Gwelwyd newidiadau arwyddocaol mewn addysg a hyfforddiant fferyllol dros y 18 mis diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol newydd ar gyfer fferyllwyr
- cyflwyno blwyddyn hyfforddiant sylfaen yn lle hyfforddiant cyn-cofrestru i fferyllwyr, a
- safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol newydd ar gyfer staff cymorth mewn fferyllfeydd

Dros y cyfnod hwn bu'n amlwg fod rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr yn dod yn fwy a mwy pwysig wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau fferyllol. Arweiniodd hyn at un o'r prif newidiadau yn y safonau newydd ar gyfer fferyllwyr. Unwaith y gweithredir hwnnw'n llawn, bydd yn golygu y daw pob hyfforddai yn rhagnodwyr annibynnol ar yr adeg maen nhw'n cofrestru. Mae'r newid arfaethedig a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn yn deillio o'r datblygiad hwn. Mae hefyd yn cefnogi nod ehangach i gynyddu nifer y fferyllwyr sy'n rhagnodi'n annibynnol, a lleihau'r amser a gymer i ddod yn un, tra'n sicrhau diogelwch cleifion ar yr un pryd.

Cytunwyd y safonau presennol ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr sy'n rhagnodi'n annibynnol yn 2019. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar ddwy agwedd benodol o'r gofynion mynediad:

- yr angen i gael dwy flynedd o arfer clinigol cyn hyfforddi'n fferyllydd sy'n rhagnodi'n annibynnol ar gwrs hyfforddiant untro, ac
- yr angen i ymgeisyddion feddu ar brofiad mewn maes arfer clinigol neu therapiwtig penodol

Trwy'r ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am eich barn ar y newidiadau arfaethedig.

Nigel Clarke
Cadeirydd

Duncan Rudkin
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Y broses ymgynghori

Cynhelir yr ymgynghoriad am wyth wythnos a daw i ben ar 23 Tachwedd 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn danfon y ddogfen hon at nifer o fudd-ddeiliaid gwahanol, gan gynnwys gweithwyr fferyllol proffesiynol, fferyllwyr sy'n rhagnodwyr, darparwyr cyrsiau rhagnodi annibynnol, perchnogion fferyllfeydd, cyrff cynrychioli cleifion, y cyrff addysg statudol ac eraill a chanddynt ddiddordeb yn y maes hwn.

Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Unwaith y daw'r cyfnod ymgynghori i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwn. Bydd ein cyngor llywodraethol yn derbyn y dadansoddiad mewn cyfarfod yn hanner cyntaf 2022. Byddant yn ystyried yr ymatebion wrth drafod fersiwn derfynol y safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ac esboniad o'r penderfyniadau a wnaed. Byddwch yn gallu gweld hyn ar ein gwefan **www.pharmacyregulation.org**

Pam rydym yn ymgynghori

Rydym yn gorfod ymgynghori cyn inni osod unrhyw safonau neu ofynion o dan Orchymyn Fferylliaeth 2010. Byddwn hefyd yn ymgynghori pan fo angen i sicrhau ein bod yn cyflawni ein swyddogaethau statudol yn effeithiol a chymesur er mwyn cyflawni ein prif amcan o ddiogelu'r cyhoedd.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio eich ymateb i'n helpu i ddatblygu ein gwaith. Gofynnwn ichi roi rhywfaint o wybodaeth gefndir am eich hunan, ac os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, am eich sefydliad. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i ddadansoddi sut allai ein cynlluniau effeithio grwpiau gwahanol. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddydd proffesiynau iechyd, ac i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb. Mae ffurflen monitro cydraddoldeb ar ddiwedd yr arolwg. Nid oes rhaid ichi ei llenwi, ond os gwnewch, bydd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol inni wneud yn siŵr fod hyn yn digwydd.

Sut rydym yn rhannu eich gwybodaeth

Os ydych yn ymateb yn unigolyn preifat, ni fyddwn yn defnyddio eich enw nac yn cyhoeddi eich ymateb unigol. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn rhestru enw eich sefydliad ac efallai y cyhoeddwn eich ymateb yn llawn

onid ydych yn dweud wrthym i beidio. Os ydych am i unrhyw ran o'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pam rydych yn credu fod y wybodaeth a roesoch yn gyfrinachol.

Efallai y bydd rhaid inni ddatgelu gwybodaeth o dan y cyfreithiau yn ymwneud â mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer). Os gofynnwch inni gadw eich ymateb neu ran ohono yn gyfrinachol, fe gymerwn y cais hwn o ddifrif a cheisio ei barchu. Ond ni allwn warantu y gellir cadw'r cyfrinachedd hwnnw o dan bob amgylchiad.

Os e-bostiwch ymateb i'r ymgynghoriad a'i fod yn cael ei gynnwys mewn ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ni fydd hynny ynddo'i hun yn gyfrwymol ar y CFfC.

Eich hawliau

O dan gyfraith diogelu data, gallwch ofyn am gopi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn neu wybodaeth arall sydd gennym amdanoch, a gallwch ofyn hefyd inni ddileu eich ymateb. Er mwyn cael mwy o wybodaeth am eich hawliau ac â phwy y dylech gysylltu darllenwch ein polisi preifatrwydd ar ein gwefan.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy **llenwi'r holiadur ar-lein**

Rydym yn eich annog i ddefnyddio'r holiadur ar-lein. Fodd bynnag, os hoffech ddanfon ymateb trwy ebost, dylech ei ddanfon at **consultations@pharmacyregulation.org**.

Fformatau eraill

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gael copi o'r arolwg ymgynghoriad mewn fformat arall (er enghraifft, mewn teip mwy neu mewn iaith wahanol.

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon neu sylwadau am y broses ymgynghori ei hun, danfonwch nhw at: **feedback@pharmacyregulation.org**, neu postiwch nhw atom yn:

Tîm Llywodraethiant
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
London E14 5LQ

Ni ddylech ddanfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.

Cefndir

Mae rhagnodwyr annibynnol yn weithwyr iechyd proffesiynol sy'n gallu rhagnodi cyffuriau, meddyginiaethau ac offer heb ymgynghori gyda rhagnodydd arall. Mewn fferylliaeth, golyga hynny y gall fferyllydd ragnodi meddyginiaeth i glaf heb ymgynghori â meddyg, dyweder. Cyflwynwyd trefn rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr yn 2006, ac roedd fferyllwyr yn gallu cael 'anodiad' ar eu cofnod ar ein cofrestr i ddangos eu bod yn rhagnodydd annibynnol (IP). Ers hynny mae nifer y fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol wedi cynyddu. Erbyn hyn mae 11,698 ar y gofrestr, sydd ychydig yn llai nac 20% o'r fferyllwyr sydd wedi cofrestru gyda'r CFfC.

Ar hyn o bryd, nid yw fferyllwyr ond yn gallu ymrestru ar gyrsiau i ddod yn rhagnodwyr annibynnol os ydynt yn bodloni nifer o amodau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- wedi gweithio am ddwy flynedd o leiaf mewn lleoliad practis yn y DG ar ôl cofrestru a
- meddu ar brofiad perthnasol mewn maes arbennig o arfer clinigol neu therapiwtig y byddant yn seilio eu rhagnodi ynddo

Datblygiad newydd

O ystyried y datblygiadau cyflym mewn arfer fferyllol, gan gynnwys yn ystod y pandemig, cyhoeddasom safonau diwygiedig ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr (IETP) ym mis Ionawr 2021. Mae'r rhain yn cynnwys diwygiadau allweddol, gan gynnwys cyflwyno gwybodaeth a sgiliau rhagnodi annibynnol (IP) trwy gydol pum mlynedd addysg a hyfforddiant cychwynnol.

Byddai hyn yn arwain at anodiad IP adeg cofrestru.

Cafodd y safonau eu creu i wneud yn siŵr fod fferyllwyr **ar ôl cofrestru,** yn cael eu cydnabod yn:

- **arbenigwyr** mewn meddyginiaethau
- **hyderus** am ac yn **gallu** gweithio mewn timau sawl-proffesiwn ar draws nifer o leoliadau gofal iechyd er mwyn diwallu anghenion amrywiol a chyfnewidiol cleifion a'r cyhoedd
- **ymroddedig i ofal yn canolbwyntio ar y person**, yn bersonol ac yn ystod ymgynghoriadau o bell
- gallu sicrhau defnydd ansawdd uchel o feddyginiaethau sy'n cynnwys diogelwch ac effeithiolrwydd ynghyd â **thosturi** ac **empathi**
- **rhagnodwyr hyfedr** y gellir defnyddio eu sgiliau i weithio gydag a chefnogi systemau gofal iechyd ehangach, cymhleth ar draws Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

Y prif newidiadau yn IETP yw:

Rhagnodi annibynnol

- ymgorffori'r sgiliau, gwybodaeth a phriodweddau ar gyfer rhagnodi
- galluogi rhagnodi annibynnol unwaith y mae fferyllwyr wedi cofrestru

Deilliannau dysgu

- cynllunio, darparu ac asesu pum mlynedd lawn addysg a hyfforddiant
- cysylltu â datblygiad parhaus hyfforddeion ar ôl cofrestru

Gwyddoniaeth mewn arfer clinigol

- ffocysu ar sgiliau allweddol gan gynnwys arfarniad proffesiynol, gwneud penderfyniadau clinigol, rheoli risg a sgiliau diagnostig ac ymgynghorol

Blwyddyn hyfforddiant Sylfaen

cryfhau goruchwyliaeth a chefnogaeth glinigol

- galluogi cydweithio rhwng prifysgolion, cyrff addysg statudol a chyflogwyr

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)

- rhoi mwy o bwyslais ar EDI
- delio â gwahaniaethu ac anghydraddoldebau iechyd

Rhagnodi annibynnol – y gofynion presennol a niferoedd

Ar hyn o bryd mae gennym safonau ar wahân ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol rhagnodwyr annibynnol. Fe'u cyhoeddwyd yn 2019 a byddwn yn parhau i achredu'r cyrsiau untro hyn ar gyfer fferyllwyr sydd eisoes wedi cofrestru gyda ni. Y gofynion mynediad yw:

a Mae ymgeisyddion wedi cofrestru yn fferyllydd gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) neu, yng Ngogledd Iwerddon, Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI).

b Mae ymgeisyddion yn cael eu hystyried yn gymeradwy gan y CFfC a/neu'r PSNI ac unrhyw reoleiddydd gofal iechyd arall y maent wedi'u cofrestru â nhw.

c Mae gan ymgeisyddion o leiaf ddwy flynedd o brofiad o weithio gyda chleifion wedi cofrestru, mewn lleoliad practis perthnasol yn y DG.

d Mae gan ymgeisyddion faes penodedig o arfer clinigol neu therapiwtig ar gyfer datblygu eu harfer rhagnodi annibynnol. Hefyd, mae'n rhaid bod ganddynt brofiad clinigol neu therapiwtig perthnasol yn y maes, sy'n addas i fod yn sylfaen eu harfer rhagnodi wrth hyfforddi.

e Mae gan ymgeisyddion ymarferydd rhagnodi dynodedig (DPP) sydd wedi cytuno i oruchwylio eu dysgu ar waith. Rhaid i'r DPP fod yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig ym Mhrydain Fawr neu Ogledd Iwerddon sy'n meddu ar hawliau rhagnodi annibynnol, sydd:

– yn meddu ar brofiad a chymwysterau addas i gyflawni'r rôl oruchwyliol hon, ac

– wedi arddangos DPP neu ail-ddilysiad sy'n berthnasol i'r rôl hon.

Er y gall ymgeisydd gael eu goruchwylio gan fwy nac un person, dim ond un rhagnodydd all fod yr ymarferydd rhagnodi dynodedig. Y DPP yw'r person fydd yn ardystio fod fferyllwyr llwyddiannus yn gymwys i weithio'n rhagnodwyr annibynnol.

Cafodd 47 darparydd eu hachredu gan y CFfC i ddarparu cyrsiau IP: 39 yn Lloegr, pedwar yng Nghymru, dau yn Yr Alban a dau yng Ngogledd Iwerddon. O'u plith, achredwyd 23 i ddefnyddio DPP i ardystio fod fferyllwyr yn gymwys i fod yn rhagnodwyr annibynnol. Bydd y nifer yma'n parhau i dyfu wrth i fwy o'r darparwyr gael eu hachredu i ddefnyddio DPP, gan ddarparu rhwydwaith helaeth i gefnogi hyfforddi mwy o fferyllwyr. Darperir pob cwrs yn fodiwl untro, sy'n tueddu bod yn dymor neu semester o hyd. Mae'n cynnwys astudio academaidd a dysgu ar waith, lle y caiff hyfforddai eu goruchwylio gan DPP. Mae rhai cyrsiau ar gyfer fferyllwyr yn unig, ond mae'r rhan fwyaf yn cael eu cyflwyno i gymysgedd o fferyllwyr, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Rhagnodi annibynnol – yr angen am newid

Pan gyflwynwyd trefn fferyllwyr yn rhagnodwyr annibynnol yn 2006, roedd fferyllwyr a wnaeth gais yn tueddu bod ynghanol neu ar ddiwedd eu gyrfaoedd ac eisiau hyfforddi'n arbenigwyr mewn maes clinigol neu therapiwtig penodol. Yn y blynyddoedd diwethaf, roedd fferyllwyr yn cychwyn cyrsiau hyfforddiant IP yn fwy tebygol o fod eisiau datblygu casgliad mwy cyffredinol o sgiliau oherwydd y newid yn anghenion cleifion. Gwelwn hyn yn esblygiad naturiol. Nid yw cael cydbwysedd rhwng hyfforddiant arbenigol a chyffredinol ond yn adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y proffesiwn ac mae'n ymateb i anghenion y gwasanaeth iechyd. Pan gawsom drafodaeth gyda myfyrwyr a hyfforddeion fferylliaeth am sut roeddent yn disgwyl i'w gwaith edrych yn y dyfodol, mae'n amlwg mai arfer clinigol, gan gynnwys IP, yw'r hyn y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ei ddisgwyl.

Mae rhai rhannau o'r sector iechyd a gofal yn gweld manteision fferyllwyr yn rhagnodi, er na chafodd IP ei fabwysiadu'n eang ymhob sector o fferylliaeth. Hefyd, nid yw anodiad bod yn IP yn amod cofrestriad (parhaus) a gall fferyllwyr benderfynu peidio gweithio fel IP. Er yn derbyn hynny, disgwyliwn i IP ddod yn fwy a mwy canolog i waith fferyllwyr fel rhan o esblygiad naturiol y proffesiwn.

Safonau IETP 2021

Pwrpas y safonau IETP newydd yw helpu creu gweithlu fferyllol mwy hyblyg, sy'n gallu gweithio mewn amrywiol leoliadau a gwneud defnydd cynyddol o sgiliau clinigol, gan gynnwys rhagnodi. Mae Prif Swyddogion Fferyllol y pedair gwlad yn y DG wedi datgan awydd a pholisi clir i:

- gynyddu nifer y fferyllwyr sy'n rhagnodwyr
- creu fferyllwyr sy'n rhagnodwyr sy'n meddu ar y sgiliau a phriodweddau generig allweddol yn gynnar yn eu gyrfaoedd, a
- lleihau faint o amser a gymer i gael eich anodi yn rhagnodydd annibynnol (7 i 8 mlynedd o ddechrau addysg a hyfforddiant cychwynnol ar hyn o bryd)

Rhagnodi annibynnol – rheoli'r cyfnod trosiannol cyn i RhA fod yn rhan lawn o addysg a hyfforddiant cychwynnol, gan gynnwys y flwyddyn hyfforddiant sylfaen

Mae cyflwyno safonau IETP 2021 yn newid arwyddocaol. Golyga hyn fod angen cael cyfnod 'trosiannol' cyn y gellir gweithredu'r casgliad llawn o ddeilliannau dysgu, gan gynnwys rhagnodi. Rydym felly wedi cyflwyno casgliad **interim** o ddeilliannau dysgu ar gyfer myfyrwyr a hyfforddeion fferylliaeth. **Nid yw'r** rhain yn cynnwys yr angen i hyfforddeion fferylliaeth gofrestru a chael yr anodiad IP ar yr un pryd. Cyflwynwyd y rhain o Flwyddyn Hyfforddiant Sylfaen 2021/22 (a gychwynnodd ym mis Gorffennaf 2021).

Disgwyliwn i safonau IETP 2021 gael eu gweithredu'n **llawn** erbyn **2025/26**. Felly, bydd y grŵp llawn cyntaf o fferyllwyr a chanddynt anodiad IP wrth gofrestru yn dod ar y gofrestr

yn yr haf 2026. Mae cyrff addysg statudol a phrifysgolion, yn gweithio gyda chyflogwyr a budd-ddeiliaid eraill, yn gweithredu hyn.

Mae'r amserlen uchod yn adlewyrchu'r gwaith arwyddocaol y mae angen ei wneud i gyflwyno'r newidiadau a gofynion, gan gynnwys:

- datblygiadau o fewn sefydliadau addysg uwch fel y gall cyrsiau ganolbwyntio ar briodweddau a sgiliau rhagnodydd a rhoi i hyfforddeion y profiad ymarferol o ragnodi fydd ei angen arnynt
- y cyrff addysg statudol yn cyflwyno blwyddyn hyfforddiant sylfaen sy'n cynnwys cyfnod dysgu ar waith IP
- cael y nifer angenrheidiol o DPP a chanddynt y gallu i oruchwylio hyfforddeion yn y flwyddyn hyfforddiant sylfaen
- cael gwasanaethau ar gael pan mae fferyllwyr newydd yn cofrestru - yn enwedig felly mewn fferylliaeth gymunedol – fydd yn gwneud defnydd o'u sgiliau rhagnodi
- datblygu prosesau sicrhau ansawdd ymhob gwlad ar gyfer hyfforddiant sylfaen
- newidiadau i seilwaith, gan gynnwys:
  - dealltwriaeth o sut fydd ansawdd y system yn cael ei sicrhau a'i reoli
  - systemau cefnogi
  - systemau adrodd, a
  - rheoli perthnasoedd: er enghraifft rhwng y cyrff addysg statudol a sefydliadau addysg uwch

O'r herwydd, disgwyliwn i'r amodau canlynol gael eu bodloni:

a Mae diogelwch cleifion a'r cyhoedd yn dod yn gyntaf, ac ni ellir cyflwyno IP i hyfforddiant sylfaen oni ellir cefnogi a datblygu hyfforddeion fferylliaeth i fod yn ymarferwyr IP diogel. Rhaid i'r cyrff addysg statudol cenedlaethol arwain ar hyn ond gallant ddirprwyo cyfrifoldebau i gyflogwyr. Rhaid cael proses archwiliadwy ar gael ar gyfer gwneud hyn..

b Rhaid i'r cyrff addysg statudol fod yn gyfrifol am yr holl hyfforddiant sylfaen o fewn eu hawdurdodaeth. Y rheswm am hynny yw sicrhau y gellir darparu IP i'r safon angenrheidiol yn eu gwlad. Nid yw hynny'n golygu fod rhaid i gyrff addysg statudol ddarparu hyfforddiant IP eu hunain.

c Rhaid i hyfforddeion fferylliaeth hyfforddi mewn amgylchedd lle y maent yn cymryd rhan mewn gweithgarwch IP, neu, o leiaf, yn cael profiad o amgylchedd o'r fath yn ddigon rheolaidd i allu cyflawni'r deilliannau dysgu. Gall hyn gynnwys profiad o IP mewn sawl sector neu leoliad.

d Rhaid i hyfforddai fferylliaeth allu troi at DPP. Bydd yr ymarferydd rhagnodi dynodedig yn cadarnhau fod hyfforddai fferylliaeth yn gymwys i weithio yn IP.

e Rhaid i hyfforddai fferylliaeth gael profiad o weithio gyda chleifion, er mwyn dysgu sut i ddod yn IP.

f Rhaid i adnoddau fod ar gael i ddarparu IP mewn hyfforddiant sylfaen.

Cyfrifoldeb cyrff addysg statudol a chyflogwyr yw darparu adnoddau.

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer cyflymdra newid? Sut ydym ni'n galluogi fferyllwyr sydd eisoes ar y gofrestr, neu fydd yn ymuno â'r gofrestr cyn yr haf 2026, i ddod yn rhagnodwyr annibynnol yn gynt?

O gofio'r newidiadau cyflym mewn fferylliaeth a'r angen dybryd am fwy o fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol, nid ydym yn credu ei bod yn iawn inni aros tan 2025/26.

Clywsom gan fudd-ddeiliaid allweddol am yr angen i wneud yn siŵr fod pobl sydd newydd gymhwyso, neu fydd yn ymuno â'r gofrestr yn y pedair blynedd nesaf, yn gallu dechrau gweithio tuag at gael cymwysterau IP yn gynt. (Ar hyn o bryd, mae angen iddynt fod wedi cofrestru ers dwy flynedd.) Y rheswm am hynny yw gwneud yn siwr nad yw nifer y fferyllwyr yn dechrau eu gyrfaoedd heb gymhwyster IP yn dal i dyfu ac yn creu tagfa yn y cyrsiau ôl-gofrestru presennol.

Rydym hefyd eisiau rhoi ystyriaeth i'r ffaith ein bod, yn ystod y cyfnod trosiannol, yn disgwyl i hyfforddeion adeiladu sgiliau rhagnodi o flwyddyn i flwyddyn. O'r herwydd, credwn y byddai cael gwared â'r gofyniad dwy flynedd yn y safonau rhagnodi presennol yn helpu cyflawni'r nod gyffredinol. Byddai hyn yn berthnasol i fferyllwyr sydd wedi cofrestru'n barod a rhai a ddechreuodd eu haddysg a hyfforddiant cychwynnol ac a fydd yn cofrestru cyn yr haf 2026.

Byddai hefyd yn gweithredu ar gynigion gan rai cyrff addysg statudol i gynnwys hyfforddiant IP yn eu rhaglenni hyfforddiant sylfaen ôl-gofrestru. Byddai hyn yn arwain at barhau addysg yn y ddwy flynedd gyntaf wedi cofrestru ac mae felly'n lleihau'r amser cyn y gall fferyllwyr sydd newydd gymhwyso ymrestru ar gwrs IP.

Y cynnig – gofyniad amser dwy flynedd

Pan gytunwyd y safonau presennol ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol yn 2019, roedd mwyafrif bychan o ymatebwyr o blaid cael gwared â'r gofyniad amser dwy flynedd. Ar y pryd penderfynasom ei bod yn fwy diogel ei gadw, gan fod rhagnodi annibynnol yn gymharol newydd i'r proffesiwn, ac y byddem yn ei adolygu eto'n ddiweddarach. O ystyried y cyd-destun newydd a ddisgrifiwyd uchod, credwn ei bod yn awr yn iawn inni wneud hynny.

Os ydym yn cael gwared â'r gofyniad amser dwy flynedd:

- bydd rhaid i fferyllwyr sydd ar y gofrestr yn barod ddangos eu bod yn addas i hyfforddi yn IP ar gwrs untro, a
- bydd rhaid i ddarparwyr cyrsiau werthuso ceisiadau gan roi ystyriaeth i hynny.

Bydd addasrwydd yn ymwneud ag ansawdd ymgeisydd a'u profiad, yn hytrach nac am faint o amser y buont ar y gofrestr. Gall gymryd mwy, neu lai, na dwy flynedd i ymgeisydd ddod yn addas, gan ddibynnu ar natur eu profiad. Bydd darparydd y cwrs yn gyfrifol, fel y maent ar hyn o bryd, am wirio fod ymgeisydd yn addas i hyfforddi (mae ganddynt y cyfrifoldeb hwn ar gyfer unrhyw gwrs o addysg a hyfforddiant).

Os ydym yn cael gwared â'r gofyniad dwy flynedd, ein cadarnhad o gymhwysedd rhagnodwyr annibynnol mewn hyfforddiant fydd:

- **cyrsiau IP untro**: bydd rhaid i ymgeisyddion o'r gweithlu presennol a chanddynt lai na dwy flynedd o brofiad ddarparu tystiolaeth eu bod yn addas i ddilyn hyfforddiant. Bydd hyn yn seiliedig ar eu gwaith clinigol hyd hynny, fydd yn gorfod cael ei werthuso gan ddarparwyr y cwrs. Rhaid i ymgeisyddion arddangos ansawdd yn hytrach na hyd eu profiadau. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys:
  - tystiolaeth o brofiad o weithio gyda chleifion
  - profiad o ragnodi clinigol gan eraill (er enghraifft, wrth arsylwi neu gynorthwyo)
  - cymryd rhan mewn ymyriadau clinigol a gweithgareddau optimeiddio meddyginiaethau er mwyn gwella deilliannau i gleifion, a
  - phrofiad o agweddau amlddisgyblaethol rhagnodi
- **hyfforddeion mewn hyfforddiant sylfaen 2021/22 i 2025/26:** bydd hyfforddeion fferylliaeth sy'n cwblhau eu hyfforddiant sylfaen rhwng 2021/22 a 2025/2026 wedi cael pumed flwyddyn o hyfforddiant. Bydd honno'n seiliedig ar ddeilliannau dysgu interim sy'n canolbwyntio'n sylweddol fwy ar y sgiliau clinigol sydd eu hangen ar gyfer cymhwysedd rhagnodi.
- Yn union wedi cofrestru byddant yn gallu ymrestru ar gwrs IP untro achrededig, neu hyfforddiant ôl-gofrestru arall a achredwyd gan y CFfC sy'n cynnwys cymwyseddau rhagnodi.
- Os yw un wlad neu ragor yn gallu gweithredu'r deilliannau rhagnodi yn y

flwyddyn hyfforddiant sylfaen cyn 2025/26, gall unigolion sydd wedi ei chwblhau wneud cais i gael eu hanodi'n rhagnodydd annibynnol yn union wedi cofrestru. (Rhaid bod y rheoleiddydd wedi sicrhau ansawdd y ddarpariaeth yn y flwyddyn hyfforddiant sylfaen a bydd angen gwneud mwy o waith ar fanylion hyn). Yn gyffredinol, dylai hyn ddarparu'r hyblygrwydd angenrheidiol ar gyfer gwledydd unigol tra'n gofalu, wrth gofrestru, mai'r un yw'r safonau sydd eu hangen ar draws yr holl wledydd

- **hyfforddeion mewn hyfforddiant sylfaen o 2025/26:** bydd hyfforddeion fferylliaeth o 2025/2026 ymlaen wedi cwblhau gradd MPharm yn seiliedig ar safonau IETP 2021 a blwyddyn hyfforddiant sylfaen y cafodd ei hansawdd ei sicrhau. Bydd y rhain yn cynnwys yr holl gymwyseddau rhagnodi angenrheidiol, ac o'r herwydd bydd hyfforddeion yn cael eu hanodi'n rhagnodwyr annibynnol wrth gofrestru.

Rydym felly'n bwriadu cael gwared â'r angen i gofrestreion gwblhau dwy flynedd o weithio cyn dod yn gymwys i ymrestru ar gwrs rhagnodi annibynnol achrededig. Credwn y bydd hyn yn arwain at adeiladu'r holl lwybrau tuag at ddod yn IP ar sylfaen glinigol gryfach, yn hytrach na mesur ansawdd yn ôl am ba gyfnod o amser y buont yn gweithio.

Beth am yr angen i feddu ar brofiad mewn maes arfer clinigol neu therapiwtig?

Fel y dywedwyd uchod, pan gyflwynwyd rhagnodi annibynnol gyntaf yn 2006 y fferyllwyr oedd yn cwblhau cyrsiau IP untro oedd y rhai profiadol oedd yn aml yn cyflawni rolau arbenigol mewn maes clinigol penodol. Felly, roedd gallu rhagnodi yn gam nesaf naturiol.

Dros y blynyddoedd gwelsom fwy o bobl yn cymryd y llwybr hwn, gan symud ymlaen wedyn i ddarparu gwasanaethau mewn maes arfer clinigol neu therapiwtig gwahanol. Mae budd-ddeiliaid fu'n ymwneud â'r safonau IETP wedi codi a chwestiynu'r gofynion mynediad yn ymwneud â 'phrofiad'. Er enghraifft, maent wedi gofyn inni ystyried beth mae hyn yn ei olygu i bobl sy'n ymuno â'r cyrsiau untro yn eu blynyddoedd cynnar ar y gofrestr. Hefyd, rydym yn glir yn safonau IETP newydd 2021 mai pwrpas yr elfen ragnodi yw cyflwyno'r egwyddorion, sgiliau a phriodweddau lefel uchel y bydd fferyllwyr sy'n rhagnodwyr yn eu defnyddio unwaith y maent wedi cofrestru. Felly, mae'n hollbwysig fod safonau IP 2019 yn gallu cyflawni hyn hefyd.

Dywed un o'r gofynion mynediad presennol ar gyfer hyfforddiant IP:

Mae gan ymgeisyddion faes penodol o arfer clinigol neu therapiwtig ar gyfer datblygu arfer rhagnodi annibynnol. Hefyd, mae'n rhaid iddynt feddu ar brofiad clinigol neu therapiwtig perthnasol yn y maes hwnnw sy'n addas ar gyfer bod yn sylfaen eu harfer rhagnodi wrth hyfforddi.

Credwn y bydd yn bwysig o hyd i ymgeisyddion allu nodi meysydd o arfer clinigol neu therapiwtig i ganolbwyntio arnynt yn ystod eu dysgu, ond nid ydym yn credu y dylai fod angen iddynt feddu ar arbenigedd clinigol neu therapiwtig perthnasol yn yr un maes hwn cyn dod yn gymwys i ymrestru ar gwrs neu raglen IP.

Y cynnig – maes profiad clinigol neu therapiwtig

Y cynnig – maes profiad clinigol neu therapiwtig

Pan gyflwynwyd safonau IP 2006 roedd rhaid cael profiad clinigol neu therapiwtig perthnasol mewn maes penodedig. Y rheswm am hynny oedd bod hwn yn gysyniad newydd a'r gynulleidfa darged oedd fferyllwyr a chanddynt wybodaeth a phrofiad arbenigol yn eu maes arfer arbenigol.

Ers hynny, mae pobl yn astudio ar gwrs IP wedi dewis hyfforddi mewn maes arbenigol neu gyffredinol, gan adeiladu ar y sgiliau maent wedi'u datblygu yn glinigwyr, Ac - os oes ganddynt addysg, hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol briodol - gall fferyllwyr hefyd ychwanegu meysydd rhagnodi ychwanegol at eu portffolio.

Bwriadwn newid y geiriad ar gyfer profiad yn y gofynion mynediad ar gyfer cwrs IP untro a'i rannu'n ddau bwynt ar wahân:

1 *Rhaid bod gan ymgeisyddion brofiad perthnasol mewn lleoliad fferyllol a gallu adnabod, deall a disgrifio'r sgiliau a'r priodweddau sydd eu hangen ar ragnodydd fel sylfaen eu harfer rhagnodi wrth hyfforddi.*

2 *Er mwyn datblygu eu harfer rhagnodi annibynnol, rhaid i ymgeisyddion nodi maes o arfer clinigol neu therapiwtig y byddant yn seilio eu dysgu ynddo.*

Trwy newid hyn byddwn yn caniatáu i bobl a chanddynt brofiad cyfyngedig o faes clinigol arbenigol ymrestru ar y cyrsiau IP untro. Bydd hefyd yn cefnogi awydd llawer o'r budd-ddeiliaid fferyllol allweddol i hyrwyddo rhagnodi cyffredinol fel man cychwyn.

Bydd y darparwyr cyrsiau yn dal yn disgwyl i'w myfyrwyr nodi maes o arfer clinigol neu therapiwtig, ond gallai hyn gynnwys, er enghraifft, amgylchiadau clinigol cyffredin. Bydd sgiliau a phriodweddau rhagnodydd yn cael eu trafod yn y cwrs a phwrpas y maes arfer clinigol neu therapiwtig penodol yw galluogi'r myfyriwr i ganolbwyntio ar eu dysgu. Ond nid yw hyn yn golygu eu bod yn gyfyngedig i'r maes arfer hwnnw unwaith y maent yn cymhwyso.

Er mwyn i hyn gael ei gytuno byddwn angen y canlynol:

- Bydd rhaid i'r darparwyr cyrsiau gael proses ddewis a derbyn gadarn i sicrhau bod pobl sy'n cychwyn ar eu cwrs:
  - yn meddu ar brofiad perthnasol
  - bod ganddynt ddealltwriaeth o beth yw rôl rhagnodydd, ac
  - y gallant nodi maes arfer y gallant ei ddefnyddio yn ystod eu dysgu.
- Bydd y dysgwyr yn deall y bydd darparydd y cwrs yn mynnu eu bod yn dewis un maes therapiwtig neu ragor yn sylfaen ar gyfer dysgu. Ni fydd hyn yn cyfyngu eu maes arfer wedi anodi.

- Bydd angen i'r cyflogwyr wneud yn siwr fod eu rhagnodwyr annibynnol, unwaith y cawsant eu hanodi ar y gofrestr, wedi cael eu hyfforddi a'u cymhwyso'n addas i ragnodi a bod adolygiad o'u cymhwysedd yn cael ei gynnal yn rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau y gall rhagnodwyr ddarparu gwasanaethau fydd yn diwallu anghenion cleifion a bydd yn cynnig hyblygrwydd ar yr amod fod yr IP yn gweithredu o fewn cwmpas eu harfer.

Credwn fod hyn yn golygu y bydd pob fferyllydd yn gallu ymrestru ar gwrs IP untro, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd y maes arfer clinigol neu therapiwtig a ddewisant yn gosod y sylfaen ar gyfer dysgu a datblygu eu harfer rhagnodi annibynnol.

Yn gyffredinol, bydd hyn yn dal i sicrhau bod fferyllwyr yn datblygu sgiliau a phriodweddau generig rhagnodydd ac y gallant eu defnyddio wrth weithio mewn maes penodol, beth bynnag yw eu profiad blaenorol yn y maes hwnnw.

Amserlen

Gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad a chael cymeradwyaeth y Cyngor, deuai'r cynigion ar waith yn gynnar yn 2022 a byddent yn berthnasol i:

a bobl yn cofrestru ar neu wedi'r dyddiad gweithredu tan 1 Awst 2026, pan fydd cofrestrai yn cael eu hanodi'n rhagnodwyr wrth gofrestru

b pobl sydd eisoes wedi cofrestru cyn y dyddiad gweithredu (hynny yw, y gweithlu presennol a myfyrwyr/hyfforddeion fferylliaeth oedd wedi dechrau eu hyfforddiant)

Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u coladu

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed eich barn ar y pwyntiau canlynol, er ein bod yn croesawu eich sylwadau ar unrhyw faterion yr hoffech eu codi am ddiwygio'r gofynion addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol.

1 **A ddylid cael gwared â'r amod dwy flynedd ar gyfer mynediad i hyfforddiant untro rhagnodi annibynnol i fferyllwyr?**

2 **A ddylid cael gwared â'r amod ar gyfer cael profiad perthnasol mewn maes clinigol neu therapiwtig penodol a gosod yn ei le yr angen i feddu ar brofiad perthnasol mewn lleoliad(au) clinigol priodol?**

3 **A ddylem gadw'r angen fod rhaid i ymgeisyddion adnabod maes o arfer clinigol neu therapiwtig y byddai eu dysgu yn cael ei seilio arno?**

Rydym eisiau deall a allai ein cynigion gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010:

- Oed
- Anabledd
- Ail-bennu rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

4 **Ydych chi'n credu y caiff ein cynigion effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig?**

Rydym hefyd eisiau gwybod hefyd a fydd ein cynigion yn cael effaith ar unigolion neu grwpiau eraill (heb fod yn gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig) - yn benodol felly, cleifion a'r cyhoedd, perchnogion fferyllfeydd a chyflogwyr, gweithwyr fferyllol proffesiynol a myfyrwyr fferylliaeth a hyfforddeion cyn-cofrestru.

5 **Ydych chi'n credu y caiff ein cynigion effaith gadarnhaol neu negyddol ar unrhyw un o'r grwpiau hyn?**

General Pharmaceutical Council
25 Canada Square, London E14 5LQ
F **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

@TheCFFC
TheCFFC
/company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org